

CANFOD TARGED


Yn ystod Brwydr Prydain roedd gan radar rôl hollbwysig fel system rhybudd cynnar ar gyfer cyrchoedd bomio. Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn adeiladu model pêl ping-pong o orsaf radar a'i ddefnyddio i ganfod cwmpas a chyfeiriannau targedau na allwch eu gweld.

Cyfeiriant

Cyfeiriant targed radar yw'r ongl rhwng y gogledd a llinell sy'n pwyntio'n union at y targed.

Cwmpas

Cwmpas y targed yw'r pellter i'r targed ar hyd y cyfeiriant.




BETH FYDD EI ANGEN ARNOCH

- Bwrdd targed (bydd hwn wedi ei osod i fyny yn barod gan eich athro)
- Pren mesur a phen/phensil
- Pren mesur metr
- Papur A4 x 2
- Tâp gludo
- 2 bêl ping-pong
- Stopwatsh neu amserydd

BETH SYDD ANGEN I CHI EI WNEUD

1. Gwnewch drosglwyddydd pêl ping pong trwy ddilyn y camau sy'n cael eu dangos yn y diagram isod.
 - (a) Ar dudalen o bapur A4, mesurwch 5cm i mewn o'r ymyl hir a thynnwch linell tuag i lawr. Yna mesurwch 5cm i mewn o'r ymyl fer a thynnwch linell ar draws y papur.
 - (b) Rholiwch y papur i greu tiwb sy'n ddigon mawr i adael i bêl ping-pong rolïo i lawr trwyddo'n hawdd. Gludiwch ef â thap.
 - (c) Plygwch dudalen arall o bapur A4 yn bedwar, ac yna yn brism a sicrhau hwnnw â thap.
 - (ch) Gosodwch y tiwb ar y prism ar ongl o 90° fel bod y llinell ar draws y tiwb yn cyd-fynd â thop



y prism. Gludwch y tiwb yn ei le â thap i orffen creu'ch trosglwyddydd.

2. Rholiwch bêl ping-pong i lawr y tiwb ac amserwch faint o amser mae'n ei gymryd i deithio 1m. Gweithiwch allan gyflymder y bêl mewn cm/s.
3. Mae bwrdd targed wedi'i baratoi i chi. Gosodwch eich trosglwyddydd yn agos at y bwrdd fel bod y tiwb wedi'i alinio â'r llinell 140° line ar y siart cyfeiriannau.
4. Rholiwch y bêl ping pong i lawr y tiwb. Bydd naill ai'n rholïo o dan y bwrdd a dod allan ar yr ochr draw, neu'n bwrw'r targed ac yn adlamu'n ôl. Os bydd y bêl yn adlamu'n ôl, gwnewch nodyn o'r cyfeiriannau.
5. Gwiriwch y cyfeiriannau i gyd, 5 gradd ar y tro. Cofnodwch eich canlyniadau.
6. Gan eich bod nawr yn gwybod cyfeiriant/cyfeiriannau y targedau cudd, meddyliwch am ffyrdd i ddod o hyd i'r cwmpas(au) a gweithiwch nhw allan.
7. Oes angen i chi ailadrodd eich mesuriadau?
8. Gwiriwch gyda'ch athro i weld a ydych yn dda am ganfod targed.